Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales

Bwyd a Diod Cymru

# Cyfeirlyfr Darparwyr Cyllid a Buddsoddwyr

Cynigir y cyfeirlyfr a'i gynnwys gyda phob ewyllys da. Mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y cyfeirlyfr hwn wedi'i darparu gan y sefydliadau a restrir, felly er y gwnaed ymdrech resymol i sicrhau ei chywirdeb, nid yw Llywodraeth Cymru yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw gamgymeriadau neu hepgoriadau. Nid yw ymddangosiad cofnodion yn y cyfeirlyfr hwn yn awgrymu unrhyw fath o gydnabyddiaeth, argymhelliad na gwarant o'r cwmni neu'r cynhyrchion a'r gwasanaethau a ddarperir.

Nid yw'r cyfeirlyfr hwn yn disodli cyngor proffesiynol annibynnol, a dylai defnyddwyr gael unrhyw gyngor proffesiynol priodol sy'n berthnasol i'w hamgylchiadau penodol.

# Cynnwys:


| Tudalen | Teitl |
|---|---|
| 3 | Rhagair |
| 4 | Cyflwyniad |
| 6 | Sut i ddefnyddio'r cyfeirlyfr hwn |
| 7 | Canllaw cyfeirio cyflym |
| 8 | Cyllid Banc a Dyled |
| 13 | Cyllid Anfonebau/Masnach/Asedau |
| 17 | Ecwiti Preifat/Cyfalaf Menter |
| 28 | Ffynonellau Cyllid Eraill |



www.llyw.cymru/bwydadiodcymru
www.gov.wales/foodanddrinkwales

e-bost: bwyd-food@cymru.gsi.gov.uk
e-mail: bwyd-food@wales.gsi.gov.uk

@BwydaDiodCymru
@FoodDrinkWales



# Rhagair gan Lesley Griffiths AC, Gweinidog y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig

Rwyf yn falch o gyhoeddi'r **Cyfeirlyfr Darparwyr Cyllid a Buddsoddwyr** hwn, sydd â'r bwriad o helpu Busnesau Bwyd a Diod Cymru i dyfu a datblygu.

Rydw i'n argymell eich bod chi, fel arweinydd busnes, yn defnyddio'r cyfeirlyfr er mwyn cynnig canllaw eglur am y cyllid neu'r buddsoddiadau mwyaf addas ar gyfer eich busnes.

Mae'r cyfeirlyfr hwn yn rhan o'n hymagwedd sy'n cefnogi busnesau. Mae Cymru'n barod i ymgymryd â heriau rhyngwladol newydd trwy fod yn ymatebol a hyblyg i ofynion newydd i fusnesau.

Rwy'n cydnabod bod angen cyngor clir a diduedd ar bob busnes wrth ystyried penderfyniadau buddsoddi. Mae'r cyfeirlyfr hwn yn amlinellu ystod eang o gyfleoedd i ganiatáu'r mesurau cymorth ariannol cywir.

Rwy'n hynod falch fod Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru wedi arwain ar y datblygiad hwn, sy'n arddangos arweiniad gan y diwydiant.

Mae'r cyfeirlyfr yn cynorthwyo ein gwaith yn cyflawni Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru, 'Tuag at Dwf Cynaliadwy - Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020', sy'n gosod targed strategol o dwf o 30% erbyn 2020. Rwy'n falch o adrodd ein bod eisoes wedi cynyddu twf y sector 17% trwy gamau a gymerwyd i fodloni'r targed hwnnw gan Lywodraeth Cymru a'r diwydiant. Mae hynny'n golygu bod twf o £6.1 biliwn yn barod, o'i gymharu â'r amcanion datganedig o £7 biliwn erbyn 2020.

Mae buddsoddi yn hanfodol ar gyfer twf, boed hynny mewn datblygiadau cyfalaf newydd, marchnata brandiau neu ysgogi arloesi. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi sicrhau dros £100 miliwn o fuddsoddi cyfalaf yn y diwydiant gweithgynhyrchu bwyd ers 2014 gyda pholisi cyd-fuddsoddi.

Rwy'n ymrwymo i gefnogi buddsoddi pellach gan fusnesau yng Nghymru, a nod y cyfeirlyfr hwn yw helpu busnesau Cymru i nodi a chyrchu ffynonellau cyllid er mwyn caniatáu twf ac ehangu ar hyd y diwydiant Bwyd a Diod.

Defnyddiwch a rhannwch y **Cyfeirlyfr Darparwyr Cyllid a Buddsoddwyr** hwn gyda'ch busnesau a'ch rhwydweithiau cadwyn gyflenwi.



# Rhagair gan Andy Richardson,
# Cadeirydd Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru

Rwy'n falch iawn o gyhoeddi'r **Cyfeirlyfr Darparwyr Cyllid a Buddsoddwyr** cyntaf ar gyfer Busnesau Bwyd a Diod yng Nghymru.

Mae'r bwrdd yn rhan allweddol o'r grym sy'n gyrru'r diwydiant yn ei flaen, a, thrwy ei waith ymgysylltu uniongyrchol â busnesau, mae'n deall bod angen canllaw eglur ar gyfleoedd buddsoddi ar arweinwyr busnes, er mwyn i'r sector allu tyfu.

Trwy weithio mewn partneriaeth uniongyrchol â Llywodraeth Cymru, rydym wedi edrych ar yr holl gyfleoedd buddsoddi, ac wedi llunio'r cyfeirlyfr hwn er budd pob busnes, o fuddsoddiadau bach i rai mawr.

Mae'r bwrdd yn datblygu atebion go iawn i'ch problemau busnes go iawn, ac mae hefyd, trwy ei bartneriaeth strategol, yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n bodloni'i thargedau twf.

Datblygwyd y cyfeirlyfr yn uniongyrchol gan ffrwd waith Busnes a Buddsoddi'r Bwrdd, sydd wedi cydnabod bod angen i'r sector fuddsoddi mewn prosiectau cyfalaf, pobl, a brandio er mwyn cefnogi twf yn y dyfodol.

Byddwn yn argymell eich bod yn defnyddio'r cyfeirlyfr hwn i ystyried unrhyw fuddsoddiadau newydd yn eich busnes, a hefyd i annog busnesau eraill yn y sector i ystyried y cyfeirlyfr hwn pan fydd angen buddsoddiad newydd arnynt.

Mae'r Bwrdd yn ymrwymo'n llawn i gynnig atebion busnes go iawn ac i weithio gyda'r sector ar feysydd twf newydd a chyffrous; os hoffech gyfrannu at waith y Bwrdd yn y dyfodol, croeso i chi gysylltu â mi neu unrhyw aelod o'r bwrdd

# Sut i ddefnyddio'r cyfeirlyfr hwn

Mae angen adnoddau ariannol priodol ar bob cam o esblygiad busnes, o'r syniad dechreuol i gychwyn busnes cyn-refeniw a throi'n fenter lwyddiannus.

Paratowyd y cyfeirlyfr hwn trwy ddewis darparwyr cyllid sefydledig yn y sector Bwyd a Diod a chysylltiadau â sefydliadau cyllido perthnasol. Nid yw'n rhestr gynhwysfawr o gyllidwyr, ond bydd yn rhoi arweiniad i'r amryw ffynonellau cyllid posibl sy'n briodol i wahanol gamau cylchred oes busnes.

Rydym ni wedi crynhoi'r cyfeirlyfr yn bedwar categori, sef cyllid banc a dyled, cyllid anfonebau, masnach ac asedau, cyllid ecwiti a chyllid arall. Mae'r tabl dros y dudalen yn rhoi arweiniad i gwmnïau sy'n ceisio adnoddau ariannol sefydliadol i'w cynorthwyo i adnabod pa fath o gyllid sy'n fwyaf addas i'w hanghenion.

Gobeithiwn y bydd y cyfeirlyfr yn ddefnyddiol i entrepreneuriaid sy'n dechrau busnes, cyfarwyddwyr neu reolwyr-berchenogion sy'n ceisio cyllid datblygu i dyfu eu mentrau neu ymgynghorwyr sy'n ceisio cynorthwyo cleientiaid i ategu eu cynlluniau busnes a chyflawni eu huchelgeisiau.

| Amcanion Busnes | Cyllid gan Fanc a Chyllid i Ariannu Dyledion | | | | | Cyllid ar gyfer Anfonebu, Masnach ac Asedau | | | | Cyllid Amgen | | | Cyllid Ecwiti | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Benthyciad Tymor | Gorddrafft | Cyllid Anfonebu | Cyllid Asedau | Cyllid Allforio a Masnach | Cyllid Anfonebu | Cyllid Asedau | Cyllid Masnach | Les & hurbwrcasu | Cyllid Torfol & Benthyca ymysg Cymheiriaid | Cyllid yn seiliedig ar Bensiwn | Cyllid Arbenigol | Cyllid Cychwynnol | Cyllid gan Angylion Busnes | Cyfalaf Menter | Ecwiti Preifat | Cyfalaf Datblygu | Cynnig Cyhoeddus Dechreuol/ Cynnig Cyhoeddus |
| Arian Cychwynnol | ● | | ● | ● | | ● | ● | | | ● | ● | | ● | ● | ● | | | |
| Lansio Cynnyrch Newydd | ● | ● | | | | | | | | ● | ● | ● | | ● | ● | | ● | ● |
| Twf Organig | ● | ● | ● | | ● | ● | | ● | | ● | | | | | | | ● | |
| Ehangu Domestig | ● | | ● | ● | ● | ● | ● | ● | | ● | ● | ● | | | | ● | ● | |
| Ehangu Rhyngwladol | ● | | ● | ● | ● | ● | ● | ● | | ● | ● | ● | | | | ● | ● | ● |
| Buddsoddi mewn Cyfleusterau | ● | | | ● | | | ● | | ● | | ● | ● | | | | ● | ● | ● |
| Ailstrwythuro Cyfalaf | ● | | ● | | | ● | | | ● | | ● | | | | | ● | ● | |
| Gwella Sefyllfa Arian Parod | | | ● | ● | | ● | ● | | | | ● | | | | | ● | ● | ● |
| Cynlluniau Caffael | ● | | | | | | | | | | | | | | | ● | ● | ● |

Wedi'i ail greu â chaniatâd Gambit Corporate Finance

# Cyllid Banc a Dyled

# Cyllid Banc a Dyled

## Allied Irish Bank

Allied Irish Bank (Prydain Fawr) yw'r Banc Busnes Diwyro a'i nod yw cael ei gydnabod fel y banc o ddewis ar gyfer Busnesau a Reolir gan Berchennog ym Mhrydain Fawr. Mae'n gweithredu o 16 lleoliad mewn canolfannau busnes mawr ledled Prydain Fawr ac yn cyflogi dros 600 o staff. Mae'n darparu amrywiaeth o wasanaethau bancio busnes gan gynnwys Disgowntio Anfonebau Cyfrinachol, Cyllid Asedau, Gorddrafft, Benthyciadau, Gwasanaethau Trysorlys Cwsmeriaid a Bancio Preifat.

**Arbenigwr Bancio Corfforaethol a Bwyd a Diod**

**Paul Morris**
*Pennaeth Bancio Corfforaethol*
☎ 0121 631 5492
📱 07798 788 099
✉ Paul.Morris@aib.ie

**Bancio Manwerthu**

**Donagh Kenny**
*Uwch Reolwr Perthnasoedd*
☎ 02920 437 512
📱 07860 780 764
✉ Donagh.m.kenny@aib.ie

## Barclays

Banc defnyddwyr, corfforaethol a buddsoddi trawsiwerydd yw Barclays sy'n cynnig cynhyrchion a gwasanaethau mewn mwy na 40 o wledydd gyda sgôr gredyd sefydlog.

Mae Barclays yn ymrwymedig i helpu cleientiaid i gyflawni eu hamcanion ariannol, gweithredol a strategol, gartref ac ar draws y byd. Mae gennym ni bresenoldeb bancio corfforaethol uniongyrchol mewn 27 gwlad, gan wasanaethu dros 35,000 o gleientiaid o America i Simbabwe.

Ni oedd y banc cyntaf i sylweddoli'r angen am arbenigo mewn sectorau. Erbyn heddiw, mae 45 sector yn elwa o brofiad ac arbenigedd ein timau ymrwymedig.

Gall Barclays gynnig Cyfarwyddwr Perthnasoedd a thîm cymorth ymrwymedig, penodol i sector sydd â gwybodaeth fanwl am y sector, a'r heriau a'r cyfleoedd sy'n eich wynebu ynddo.

**Jason Llewellyn**
*Cyfarwyddwr, Bancio Busnes a Chorfforaethol*
📱 07775 543 513
✉ jason.a.llewellyn@barclays.com

**Steven Beavan**
*Cyfarwyddwr, Tarddiad Bancio Corfforaethol*
📱 07881 317 981
✉ steven.beavan@barclays.com

**Dave Farmer**
*Rheolwr Busnes Lleol*
☎ 02920 426 980
📱 07775 540 587
✉ Dave.Farmer@barclayscorp.com

## Handelsbanken

Yn Handelsbanken, mae perthynas fancio yn dal i fod yn bwysig. Byddwch ond yn delio â phobl rydych chi'n eu hadnabod, ac mae penderfyniadau'n cael eu gwneud yn lleol gan eich cangen. Ein nod syml yw darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'n cwsmeriaid. Dyna pam mae ein holl gynhyrchion yn hyblyg, sy'n ein galluogi i deilwra ein datrysiadau i'ch anghenion unigryw.


**Caerdydd**

**Gavin Reid**
*Rheolwr Bancio Corfforaethol*
☎ 02920 224 417
📱 07442 505 371
✉ gare01@handelsbanken.co.uk

**Abertawe**

**Martin Griffiths**
*Rheolwr Bancio Corfforaethol*
☎ 01792 793 195
📱 07436 534 642
✉ magr36@handelsbanken.co.uk

**Casnewydd**

**Simon Johns**
*Rheolwr Bancio Corfforaethol*
☎ 01633 413 570
📱 07825 430 280
✉ sijo06@handelsbanken.co.uk

**Pen-y-bont ar Ogwr**

**James Brennan**
*Rheolwr Bancio Corfforaethol*
☎ 01656 861 263
📱 07483 002 579
✉ jabr15@handelsbanken.co.uk


## HSBC

Mae gan HSBC rwydwaith rhyngwladol heb ei ail gyda phresenoldeb ym marchnadoedd mawr datblygedig y byd a'r rhai sy'n tyfu'n gyflymach. Ar hyd ein hanes, rydym ni wedi bod yng nghanol twf, gan gysylltu cwsmeriaid â chyfleoedd. Rydym ni'n galluogi busnesau ac economïau i ffynnu. Mae HSBC wedi lansio cronfa £500 miliwn i gefnogi busnesau bach a chanolig (BACh) yng Nghymru yn rhan o gronfa fenthyg £10 biliwn i gefnogi BAChau ledled y Deyrnas Unedig.


**Bancio Corfforaethol**

**Simon Williams**
*Cyfarwyddwr Perthnasoedd*
📱 07515 329 969
✉ simon.p.williams@hsbc.com

**Sector**

**Sian Williams**
*Cyfarwyddwr Perthnasoedd*
📱 07795 618 995
✉ sianrwilliams@hsbc.com

**Bancio Busnes**

**Joel Dunning**
*Rheolwr Perthnasoedd*
📱 07584 401 147
✉ joel.n.dunning@hsbc.com

## Lloyds

Mae gan Lloyds Bank Commercial yng Nghymru dimau ymroddedig o reolwyr perthnasoedd sy'n canolbwyntio'n benodol ar y diwydiannau allweddol amaethyddiaeth a gweithgynhyrchu. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn ymdrin â phob agwedd ar gynhyrchwyr a gweithgynhyrchwyr bwyd a diod. Yn ogystal â chynnig ystod lawn o gynhyrchion a gwasanaethau bancio i gynorthwyo â buddsoddi a chyfalaf gweithio, mae cynhyrchion penodol i sector ar gael hefyd, fel cyllid cynhyrchu offer a stoc ar gyfer gweithgynhyrchwyr bwyd a chymorth ychwanegol gyda thaliadau'r Cynllun Taliad Sylfaenol ar gyfer busnesau amaethyddol.

Mae'r banc yn cynhyrchu arolwg blynyddol o'r Diwydiant Bwyd a Diod ac mae copïau o'r adroddiad diwethaf o fis Medi 2016 ar gael.


**Ciaran Leaden**
*Cyfarwyddwr Ardal – Gweithgynhyrchu*
07788 640 788
ciaran.leaden@lloydsbanking.com

**Gwilym Francis**
*Cyfarwyddwr Ardal – Amaethyddiaeth, y De*
07788 438 780
gwilym.francis@lloydsbanking.com

**Jonathan Jenkins**
*Cyfarwyddwr Ardal – Amaethyddiaeth, y Gogledd*
07802 321 355
jonathan.jenkins@lloydsbanking.com


## NatWest

Mae NatWest yn gwasanaethu cwsmeriaid yng Nghymru a Lloegr, gan eu cynorthwyo â'u hanghenion bancio personol, preifat, a busnes. Mae'n helpu cwsmeriaid ar bob cam o'u cylchred busnes. Gydag amrywiaeth eang o ddatrysiadau, gan gynnwys rheoli cyfalaf gweithio, buddsoddi asedau, cymorth mewnforio/allforio a rheoli cadwyn gyflenwi, mae NatWest yn helpu busnesau i fuddsoddi yn eu dyfodol.

Ochr yn ochr ag ystod eang o wasanaethau bancio, mae NatWest yn cynnig gwybodaeth sector arbenigol i fusnesau mewn meysydd fel bwyd a diod, gweithgynhyrchu a thechnoleg, yn ogystal â mynediad at gymorth entrepreneuraidd arbenigol.


**Jessica Shipman**
*Cyfarwyddwr, Caerdydd a De-ddwyrain Cymru*
07799 765 429
Jessica.Shipman@NatWest.com

**Tim Brisdon**
*Cyfarwyddwr, Abertawe a Gorllewin Cymru*
07979 825 327
Tim.Bridson@NatWest.com

**Chris Golledge**
*Cyfarwyddwr Cyllid Asedau*
07802 488 428
cgolledge@lombard.co.uk

## Santander

Mae gan Santander Commercial Banking weledigaeth syml – i weld cyllid busnes o safbwynt y cleient, nid o'n safbwynt ni, ac i ganolbwyntio ar sut y gallwn helpu cleientiaid i lwyddo.

Rydym ni yma i helpu busnes i gyflawni ei nodau. Rydym ni'n cynnig popeth y byddech chi'n ei ddisgwyl gan fanc masnachol, ond credwn mewn gwneud cymaint yn fwy. Byddwn yn treulio amser yn dod i ddeall anghenion cleient ac yn helpu'r busnes i dyfu trwy:

- Gysylltu cwmnïau â chymheiriaid, partneriaid busnes posibl a marchnadoedd newydd;
- Cefnogi cynlluniau twf rhyngwladol. Yn sgil y ffaith bod gennym ni bron 14,000 o ganghennau – mwy nag unrhyw fanc rhyngwladol arall – a 5 miliwn o gwsmeriaid busnes ar draws y byd, byddwn yn defnyddio ein harbenigedd, ein technoleg a'n cyrhaeddiad i alluogi busnesau i dyfu'n rhyngwladol, gan addasu ein hymagwedd wrth i fusnesau dyfu a newid.

Felly, wrth i anghenion busnes newid, byddwn ni'n newid i sicrhau ein bod yn helpu perchenogion cwmnïau i gyflawni eu huchelgeisiau.

Rydym ni'n rhoi pwyslais mawr ar ein tîm o Gyfarwyddwyr Perthnasoedd, wedi'u lleoli mewn mwy na 50 o gymunedau lleol ledled y Deyrnas Unedig, sy'n treulio amser yn datblygu perthnasoedd agos trwy ofyn cwestiynau a gwrando fel ein bod ni'n deall beth sy'n wirioneddol bwysig i berchenogion cwmnïau. Mae hyn yn ein helpu ni i ddeall problemau neu bryderon yn uniongyrchol, ac i ddod o hyd i'r ateb gorau er mwyn helpu busnesau i fynd ymhellach.

Credwn mai'r weledigaeth syml hon o ganolbwyntio ar anghenion busnes sydd wedi ysgogi dros 4,000 o fusnesau i ddewis bancio gyda ni yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn unig, a 4 o bob 5 o gwsmeriaid busnes i ddweud y byddent yn ein hargymell ni.

**David Walters**
*Cyfarwyddwr Rhyngwladol*
07834 618 445
david.walters@santander.co.uk

**Andrew Woodgate**
*Cyfarwyddwr Perthnasoedd*
07809 493 627
andrew.woodgate@santander.co.uk

**Myrddyn Hughes**
*Cyfarwyddwr Perthnasoedd*
07808 397 628
myrddyn.hughes@santander.co.uk

# Cyllid Anfonebau/Masnach/Asedau

**Gwefannau defnyddiol:**
Y Gymdeithas Cyllid Seiliedig ar Asedau – www.abfa.org.uk
Y Gymdeithas Cyllid a Phrydlesu – www.fla.org.uk

# Cyllid Anfonebau/Masnach/Asedau

## ABN Ambro

Ers dros ugain mlynedd, mae ABN AMRO Commercial Finance UK wedi bod yn helpu cwmnïau o bob math a maint i gyflawni eu huchelgeisiau busnes – o gwmnïau cychwynnol i'r categori trosiant £1 biliwn. Trwy ein hystod wych o wasanaethau, gwnawn bob ymdrech i wireddu eich cynlluniau. Byddwn yn gweithio ochr yn ochr â chi i roi eich syniadau ar waith.

**Cynhyrchion:** Edrychwch drwy ein gwasanaethau Cyllido Anfonebau a Benthyca Seiliedig ar Asedau sydd wedi ennill gwobrau, ac fe welwch yn union beth sydd ei angen arnoch i wireddu eich uchelgeisiau ar gyfer eich busnes. Mae cyllido anfonebau'n ffordd gynyddol boblogaidd o godi arian, ac mae eisoes wedi helpu miloedd o fusnesau i gael gafael ar eu cyfalaf gweithio.


**Kelvin Thomas**
*Cyfarwyddwr Rhanbarthol, Cymru a Gorllewin Lloegr*
07742 514 101
kelvin.thomas@abnamrocommercialfinance.co.uk


## Aldermore

Mae cyllid anfonebau yn caniatáu i chi ryddhau arian parod i'ch busnes yn gyflym trwy drosi gwerth anfonebau heb eu talu yn gyfalaf gweithio parod. Yn lle aros am daliadau neu wastraffu amser yn mynd ar eu hôl, gall cyllid anfonebau eich helpu i gael at hyd at 90% o werth llawn eich anfonebau yn syth.

Y cynhyrchion craidd yw Ffactoreiddio a Disgowntio Anfonebau gyda Chyllid Adeiladu a Chyllid Masnach arbenigol.

Gall cyllid anfonebau roi'r hyblygrwydd sydd ei angen arnoch i fanteisio ar gyfleoedd newydd wrth iddynt godi, gan eich helpu i gyflawni eich nodau.

Beth bynnag fo'ch nodau, o gynlluniau ehangu i gaffaeliadau newydd, lliniaru pwysau llif arian i leihau costau cyllid, gallwn helpu i wireddu eich uchelgeisiau gyda'n datrysiadau cyllid anfonebau.

**Cynhyrchion:** Cyllid anfonebau | Cyllid asedau


**Stuart Baty**
*Pennaeth Datblygu Busnes*
07917 520 483
Stuart.Baty@aldermore.co.uk

**Steve Kilby**
*Rheolwr Datblygu Busnes*
07867 341 088
steve.kilby@aldermore.co.uk

## Bibby

Bibby Financial Services yw arbenigwr cyllid anfonebau annibynnol mwyaf blaenllaw'r Deyrnas Unedig, a darparwr dibynadwy datrysiadau cyllid i fwy na 7,000 o fusnesau. A ninnau'n fusnes mewn dwylo preifat, rydym ni'n deall yr heriau a'r gofynion sy'n gysylltiedig â chynnal a thyfu busnes.

Trwy ein rhwydwaith o 19 swyddfa leol, rydym ni'n ymdrin â throsiant cleientiaid blynyddol o £5 biliwn ac yn benthyca oddeutu £483 miliwn i fusnesau bach a chanolig ar draws y wlad.

**Cynhyrchion:** Cyllid anfonebau I Ffactoreiddio I Disgowntio anfonebau I Darpar gyllid Cyllid masnach I Cyllid asedau

**Mike Freebury**
*Pennaeth Gwerthiannau, Cymru a De-orllewin Lloegr*
07739 300 158
mike.freebury@bibbyfinancialservices.com

**Jon Dyer**
*Rheolwr, Corfforaethol*
07525 642 022
jon.dyer@bibbyfinancialservices.com

## Investec

Banc arbenigol yw Investec sy'n darparu amrywiaeth eang o gynhyrchion a gwasanaethau ariannol i sylfaen arbenigol o gleientiaid. Eu nod yw ffurfio partneriaeth â thimau rheoli gwych a busnesau cymhellol trwy eu cynorthwyo â chefnogaeth ariannol wedi'i theilwra. Maen nhw'n canolbwyntio ar fusnesau maint canolig sydd â phencadlys yn y Deyrnas Unedig. Maen nhw wedi cwblhau nifer o drafodion cyllido yn y sectorau bwyd a diod, yn amrywio o weithgynhyrchu, dosbarthu a manwerthu.

**Cynhyrchion:** Mae gallu benthyca corfforaethol Investec yn amrywio ar draws y strwythur cyfalaf, gan gynnwys benthyca seiliedig ar asedau a llif arian, uwch ddyled, ac ecwiti mesanîn a lleiafrifol. Mae ei allu corfforaethol ehangach yn cynnwys y gyfnewidfa dramor, rhagfantoli cyfradd llog a nwyddau, a gwasanaethau cynghori corfforaethol a bancio buddsoddi ar gyfer cwmnïau rhestredig.

**James Cullen**
02075 974 787
james.cullen@investec.co.uk

**James Stirling**
02075 974 119
james.stirling@investec.co.uk

## PNC Business Credit

PNC Business Credit yw un o'r prif Fenthycwyr Seiliedig ar Asedau yn y Deyrnas Unedig i'r gymuned Ecwiti Preifat, yn ymgynghorwyr a chwmnïau fel ei gilydd. Rydym ni'n darparu datrysiadau cyllid i gwmnïau canol y farchnad sy'n cynnig dealltwriaeth fanwl a hyblygrwydd, ynghyd â gallu heb ei ail i gleientiaid gael mynediad at ein huwch dîm.

Mae PNC Business Credit yn rhan o PNC Financial Services Group, Inc., sef un o'r sefydliadau ariannol mwyaf yn yr Unol Daleithiau. Rydym ni'n darparu cadernid a sefydlogrwydd arweinydd yn y diwydiant, a fydd yno i chi, i'ch cynorthwyo i gyflawni eich uchelgeisiau. Mae gan PNC Business Credit brofiad sylweddol yn y diwydiant Bwyd a Diod, yn sgil cyflawni nifer o gytundebau arwyddocaol:

- **Seafresh Group** - Cynhyrchion Bwyd Môr – cyfleuster benthyca seiliedig ar asedau £30 miliwn
- **Pork Farms Group**- Gweithgynhyrchu Bwyd Sawrus Oer- cyfleuster benthyca seiliedig ar asedau £40 miliwn
- **Knighton Foods**- Diodydd a Phwdinau Powdr – cyfleuster benthyca seiliedig ar asedau £9.5 miliwn
- **Loch Lomond**- Distyllwyr Whisgi – cyfleuster benthyca seiliedig ar asedau gwerth sawl miliwn
- **Lovering Foods**- Mewnforwyr a Dosbarthwyr Bwydydd Tun – cyfleuster benthyca seiliedig ar asedau £15 miliwn

**Cynhyrchion:** Gall datrysiadau PNC Business Credit ddarparu'r momentwm sydd ei angen arnoch i lwyddo. Mae ein tîm arbenigol yn darparu'r lefelau cyllid mwyaf posibl ar gyfer newid a ysgogir gan ddigwyddiad, gan gynnwys: twf, prynu cyfran / stoc gan reolwyr, cyfuno a chaffael, ail-gyllido ac ailstrwythuro. Yn PNC Business Credit, gallwn roi'r lefel uchaf bosibl o gyllid i chi yn erbyn asedau cyfunedig eich busnes: Asedau Cyfredol (cyfrifon derbyniadwy, stocrestr); Asedau Sefydlog (eiddo, offer a pheiriannau) ac Asedau Anniriaethol (enwau brand a nodau masnach).


**Graham Barber**
*Cyfarwyddwr Datblygu Busnes a Marchnata*
☎ 01223 653 045
✉ graham.barber@pnc.com

**Justin Edwards**
*Cyfarwyddwr Rhanbarthol*
📱 07768 467 694
✉ justin.edwards@pnc.com

# Ecwiti Preifat/Cyfalaf Menter

**Dolenni gwefannau defnyddiol:**
Cymdeithas Ecwiti Preifat a Chyfalaf Menter Prydain – www.bvca.co.uk
Cymdeithas Angylion Busnes y Deyrnas Unedig – www.ukbusinessangelsassociation.org.uk

# Ecwiti Preifat/Cyfalaf Menter

## Bridges Ventures

Buddsoddwr effaith arbenigol sy'n buddsoddi mewn cwmnïau sy'n helpu i fynd i'r afael â rhai o'n heriau cymdeithasol ac amgylcheddol mwyaf. Fel buddsoddwr ymgysylltiedig, mae'n helpu cwmnïau i wireddu eu potensial enfawr i dyfu ar yr un pryd â chael effaith gymdeithasol gadarnhaol.

**Meini Prawf:** Buddsoddi rhwng £5 miliwn ac £20 miliwn mewn busnesau twf uchel, effaith uchel sy'n ceisio cyflawni strategaethau organig ar gyfer twf, prynu ac adeiladu a chyflwyno mewn safleoedd lluosog ar draws ein pedair thema effaith: Iechyd a Lles, Addysg a Sgiliau, Byw'n Gynaliadwy a Marchnadoedd a Danwasanaethir.

**Buddsoddiadau:**
Wholebake- Gweithgynhyrchwr bariau egni heb glwten o dan frand 9BAR a label preifat
Vegitarian Express- Cyflenwr arbenigol blaenllaw cynhwysion seiliedig ar blanhigion i'r sector gwasanaeth bwyd yn y Deyrnas Unedig

**Kyle Bentwood**
*Rheolwr Tarddiad*
☎ 02037 808 025
✉ kyle@bridgesventures.com

## Business Growth Fund

Cwmni annibynnol yw BGF sydd â hyd at £2.5 biliwn i wneud buddsoddiadau ecwiti tymor hir. I ddechrau, buddsoddir £2 filiwn - £10 miliwn o gyfalaf twf ar gyfer rhan ecwiti lleiafrifol a sedd ar y bwrdd. Ymagwedd leol gref gydag wyth swyddfa ar draws y Deyrnas Unedig.

**Meini Prawf:** Buddsoddi rhwng £5 miliwn ac £20 miliwn mewn busnesau twf uchel, effaith uchel sy'n ceisio cyflawni strategaethau organig ar gyfer twf, prynu ac adeiladu a chyflwyno mewn safleoedd lluosog ar draws ein pedair thema effaith: Iechyd a Lles, Addysg a Sgiliau, Byw'n Gynaliadwy a Marchnadoedd a Danwasanaethir.

**Buddsoddiadau:**
Barburrito- Bwytai Mecsicanaidd cyflym ac anffurfiol
Peyton & Byrne- popty ac arlwyo cyhoeddus wedi'i frandio
Boost Juice Bars- cadwyn genedlaethol o fariau sudd

**Paul Oldham**
*Cyfarwyddwr Rhanbarthol, y De*
☎ 01173 270 607
✉ paul.oldham@bgf.co.uk

## Distill Ventures

Cyflymydd sy'n cynnig cyfuniad o fuddsoddiad, mynediad at arbenigedd a mentora i helpu i greu brandiau diodydd byd-eang y dyfodol. Diageo yw'r unig fuddsoddwr sy'n darparu brandiau gwirodydd cyffrous gyda buddsoddiad ac arbenigedd cwmni diodydd byd-eang blaenllaw.

**Meini Prawf:** Diodydd alcoholig o bob math, heblaw am gwrw a gwin. Busnesau cyn-lansio a cham cynnar sy'n chwilio am gymorth i gychwyn arni, neu fusnesau sy'n tyfu a chanddynt gynllun eglur, sydd angen cyllid i wireddu eu gweledigaeth, gyda buddsoddiadau'n amrywio o £175,000 i fwy na £10 miliwn.

**Buddsoddiadau:**
Stauning- Distyllfa fodern sy'n gwneud whisgi brag sengl a rhyg
Starward- Whisgi unigryw o Awstralia
Seedlip- Y gwirod distyll di-alcohol cyntaf yn y byd

**Will Welton**
☎ 02077 485 208
✉ will@distillventures.com

## Dunedin

Maen nhw'n arbenigo mewn prynu cyfran gan reolwyr, prynu stoc a thrafodion cyfalaf twf ym marchnad ganol y Deyrnas Unedig. Dealltwriaeth fanwl o ddeinameg gwahanol farchnadoedd, yn ogystal â rhwydweithiau cryf o swyddogion gweithredol, ymgynghorwyr ac arbenigwyr diwydiant sydd â phrofiad yn y farchnad bwyd a diod.

**Meini Prawf:** Safle cryf yn y farchnad, cynnig arbenigol neu frand sydd â photensial twf organig eglur a Gwerth Menter o £20-100 miliwn.

**Buddsoddiadau:**
Celtic Inns
Young Bluecrest Seafood
Golden Wonder

**Oliver Bevan**
*Partner*
☎ 02072 922 110
✉ oliver.bevan@dunedin.com

## Cyllid Cymru

Cyllid Cymru yw un o gyllidwyr rhanbarthol mwyaf y Deyrnas Unedig, gan reoli £706 miliwn ar draws nifer o gronfeydd. Maen nhw'n darparu buddsoddiadau dyled ac ecwiti i fusnesau bach a chanolig (BAChau) sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Mae buddsoddiadau'n dechrau ar £1000 ac yn cynyddu i £3 miliwn fesul rownd fuddsoddi. Mae buddsoddiadau ar gael i gwmnïau ar bob cam twf, o gwmnïau cychwynnol i olyniaeth. Mae Cyllid Cymru yn gyd-fuddsoddwr gweithredol ac yn gweithio gyda chyllidwyr eraill, gan gynnwys banciau ac angylion busnes, i ddarparu pecynnau wedi'u teilwra i gleientiaid.

Yn ddiweddar, lansiodd Cyllid Cymru eu cronfa fwyaf newydd, sef Cronfa Busnes Cymru sy'n werth £136 miliwn. Bydd y gronfa, a gefnogir gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Llywodraeth Cymru, ar gael am saith mlynedd o'i lansio ym mis Medi 2016.

**Meini Prawf:** Bydd angen i gwmnïau sy'n ceisio buddsoddiad gan Gyllid Cymru fod wedi'u lleoli yng Nghymru neu'n fodlon symud i Gymru. Fodd bynnag, gallant fod â sawl canolfan y tu allan i Gymru. Mae'n rhaid i fusnesau fod yn rhai BACh sy'n cyflogi llai na 250 o weithwyr.

**Buddsoddiadau:**

Wholebake Ltd- Gweithgynhyrchwyr a dosbarthwyr amrywiaeth o fariau hadau a ffrwythau o'u brand eu hunain i archfarchnadoedd, cadwyni bwyd iach a siopau manwerthu eraill.

KK Fine Foods- Gweithgynhyrchwyr bwyd wedi'u lleoli yng ngogledd Cymru sy'n cyflenwi prydau rhewedig o ansawdd uchel i gadwyni archfarchnadoedd, manwerthwyr a thafarnau o'r radd flaenaf.

Halen Môn- Cynhyrchwyr y brand halen môr poblogaidd Halen Môn, a chanddo ardystiad organig, sy'n dod o ddyfroedd Afon Menai.

Wright's Food Emporium- Delicatessen a siop gwin a chwrw sydd wedi ennill gwobrau yng ngorllewin Cymru.

Gwynt-y-Ddraig (Gwynt)- Gwneuthurwyr seidr mwyaf Cymru sy'n cynhyrchu seidr casgen a photel sydd wedi ennill gwobr aur a werthir mewn archfarchnadoedd yn y Deyrnas Unedig ac ar draws saith gwlad.

**David Staziker**
*Rheolwr Buddsoddi*
✉ david.staziker@financewales.co.uk

**Chris Griffiths**
*Rheolwr Cronfa*
✉ chris.griffiths@financewales.co.uk

**Bethan Cousins**
*Dirprwy Reolwr Cronfa*
✉ bethan.cousins@financewales.co.uk

## Granary Investments

Grŵp bach o uwch reolwyr bwyd a diod a masnachol sydd wedi dod at ei gilydd i helpu, buddsoddi mewn, a gweithio gydag entrepreneuriaid bwyd a diod sydd wedi dechrau ar y daith ac sydd â busnesau cam cynnar gyda chynlluniau busnes, strategaethau twf, syniadau a galluoedd da.

**Meini Prawf:** Busnesau bwyd a diod entrepreneuraidd a reolir gan berchennog ar gam datblygu allweddol sy'n ceisio cyfalaf o dwf a lle y gall uwch arbenigwyr diwydiant ychwanegu gwerth. Gwerth menter llai na £5 miliwn sydd angen £50-250,000 o gyllid yn nodweddiadol.

**Buddsoddiadau:**

Bradford Brewing Co- Bragdy a thafarn yng nghanol Bradford

Scrubbys- Brand creision llysiau sy'n tyfu'n gyflym

Flavourly- Gwasanaeth blwch tanysgrifio i gwrw crefft

**David Brooks**

*Partner*

07831 787 382

dave@dgbadvisory.com

## Grocery Accelerator

Rhaglen gyflymu a gynlluniwyd i gefnogi brandiau ifanc addawol sydd â photensial twf uchel yn y farchnad bwyd a diod nwyddau defnyddwyr sy'n symud yn gyflym (FMCG). Bydd busnesau'n cael buddsoddiad o £60,000 ynghyd â mentora, mynediad at arbenigwyr yn y diwydiant, hyfforddiant busnes ac offer i helpu i gyflymu twf a photensial.

**Meini Prawf:** Brandiau bwyd a diod arloesol ar gam cynnar y gellir eu gwerthu trwy siopau manwerthu prif ffrwd sydd wedi cyflawni rhywfaint o ddilysrwydd marchnad ymhlith defnyddwyr yn sgil y ffaith eu bod yn eu prynu mwy nag unwaith o un siop fanwerthu neu fwy, ac sy'n fodlon ar brisiad cyn-arian o £440,000.

**Buddsoddiadau:**

T+ Drinks- te llesol cyntaf y Deyrnas Unedig i'w gyfoethogi â fitaminau

Jim Jams- Taeniadau a jamiau iach, heb siwgr

Arctic Power Berries- Powdrau aeron cwbl bur a naturiol

**Rob Ward**

02072 947 692

07773 777 097

## H2 Equity Partners

Mae H2 Equity Partners, a sefydlwyd ym 1991 ac sydd â swyddfeydd yn Llundain ac Amsterdam, yn gwmni buddsoddi ymarferol blaenllaw yng ngorllewin Ewrop sy'n weithredol yn y Deyrnas Unedig, Iwerddon, a'r Almaen ac sy'n rheoli dros £400 miliwn. Ar hyn o bryd, mae gan H2 Equity Partners 13 cwmni yn eu portffolio sy'n cynhyrchu dros £1.3 biliwn o werthiannau gydag oddeutu 10,000 o weithwyr. Mae'r tîm yn cynnwys gweithwyr buddsoddi proffesiynol o safon uchel sydd â chefndir gweithredol, rheoli llinell neu Brif Weithredwr.

Yn wahanol i gwmnïau ecwiti preifat traddodiadol, mae H2 yn adnabyddus am allu bod yn fuddsoddwr tymor hir. Mae hanes rhagorol H2 yn deillio'n rhannol o'u dulliau buddsoddi ymarferol o gynorthwyo timau rheoli'n weithredol a datblygu busnesau gwell. Mae hyn, ynghyd â gwneud penderfyniadau'n effeithlon, yn sicrhau bod camau'n cael eu cymryd yn gyflym, hyd yn oed mewn sefyllfaoedd cymhleth.

**Meini Prawf:** Mae H2 Equity Partners yn defnyddio buddsoddiadau penodol mewn cwmnïau maint canolig sydd â photensial i wella. Ceir tri phrif fath o gytundeb: Ad-drefnu corfforaethol cymhleth, Sefyllfaoedd gwella twf ac elw a fydd yn elwa o ddulliau ymarferol H2, Sefyllfaoedd arbennig

**Buddsoddiadau:**
Hancocks- melysion
Oerlemans Food Group- prosesu tatws a llysiau
Meyn- prosesu dofednod


**H2 Equity Partners**
*Swyddfa Llundain*
☎ 02070 090 440
✉ info@h2ep.com


## Inflexion Private Equity Partners

Cwmni ecwiti preifat marchnad ganolig blaenllaw yn y Deyrnas Unedig yw Inflexion sy'n buddsoddi mewn busnesau entrepreneuraidd twf uchel a chanddynt dimau rheoli uchelgeisiol ac sy'n gweithio mewn partneriaeth â nhw i gyflawni twf. Gan fuddsoddi ar draws sectorau o swyddfeydd yn Llundain a Manceinion, mae gan Inflexion dimau hefyd yn Bangalore, São Paulo a Shanghai, sy'n galluogi cwmnïau y rhoddwyd buddsoddiad iddynt i elwa o fynediad breintiedig at y marchnadoedd hyn sy'n tyfu'n gyflym. Mae gan y cwmni arbenigedd digidol mewnol, mae'n buddsoddi mewn gwelliant gweithredol ac mae'n cefnogi twf trwy gaffael.

**Meini Prawf:** Mae'n canolbwyntio ar farchnad ganolig isaf y Deyrnas Unedig, gan fuddsoddi ecwiti o £10-100 miliwn ar gyfer rhannau mwyafrifol neu leiafrifol mewn busnesau sefydledig.

**Buddsoddiadau:**
Ilchester Cheese (Cyflawnedig)


**Matthew Hardcastle**
*Swyddog Gweithredol Tarddiad*
☎ 02074 879 857
✉ matthew.hardcastle@inflexion.com


## Langholm Capital

Cwmni ecwiti preifat sy'n canolbwyntio ar fuddsoddiadau yn y sector defnyddwyr sy'n arbenigo mewn darparu cyfalaf twf a chyllid prynu cyfran ar gyfer cwmnïau bach a chanolig. Mae ganddo hanes arwyddocaol o ffurfio partneriaethau ag entrepreneuriaid a thimau rheoli i ddatblygu brandiau sy'n arwain y farchnad.

**Meini Prawf:** Mae'n ceisio buddsoddi £10-30 miliwn mewn cwmnïau gwerth £10-75 miliwn ac sydd ag EBITDA (enillion cyn llog, treth, dibrisiad ac amorteiddiad) o £1-10 miliwn mewn tueddiadau gan gynnwys Iechyd a Lles, Cyfleustra ac Argaeledd Uniongyrchol, gwasanaethu Poblogaeth sy'n Heneiddio, Profiadau Brand a Sicrhau Byd Gwell.

**Buddsoddiadau:**
Bart Spices- Cyflenwyr blaenllaw perlysiau a sbeisys o ansawdd uchel y Deyrnas Unedig
Purity Soft Drinks- Cynhyrchwyr sudd ffrwythau a diodydd meddal. Juice Burst yw prif frand y cwmni
Firefly- Diodydd sudd premiwm naturiol


**Anthony Sills**
*Partner*
☎ 02074 848 850

**Lena Groen**
*Cyfarwyddwr Buddsoddi*
☎ 02074 848 850

## LDC

Mae LDC yn gwmni ecwiti preifat blaenllaw yn y farchnad ganolig ac yn gallu darparu hyd at £100 miliwn ar gyfer prynu cyfran a thrafodion cyfalaf datblygu mewn cwmnïau heb eu dyfynnu yn y Deyrnas Unedig. Mae strwythur cyllido unigryw a hyblyg LDC yn sicrhau amynedd, sefydlogrwydd a sicrwydd o ran y cyfalaf a roddir. Rydym ni'n gweithio gyda thimau rheoli, ymgynghorwyr a phartneriaid i greu perthynas waith ymgysylltiol, bleserus, uchelgeisiol a llwyddiannus.

Mae gan LDC fwy na 35 mlynedd o brofiad ac mae wedi buddsoddi oddeutu £4 biliwn yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae gan LDC bortffolio o oddeutu 90 o gwmnïau a rhwydwaith eang o weithwyr proffesiynol yn y diwydiant sy'n gallu helpu i gynyddu gwerth.

Yn ddiweddar, estynnodd LDC ei rwydwaith rhanbarthol trwy agor swyddfa yng Nghaerdydd, sy'n dangos awydd ac ymrwymiad LDC i gefnogi busnesau yng Nghymru.

**Meini Prawf:** Hanes proffidiol a thîm rheoli uchelgeisiol. Yn nodweddiadol, trosiant o £5 miliwn neu fwy ac elw oddeutu £1 filiwn ac uwch.

**Buddsoddiadau:**

D&D London l Seabrook Crisps l Ministry of Cake
ICB l The Compleat Food Group l Vital Ingredient
Fever-tree l Waterfall Catering Group l New World Trading Company

**Dewi Hughes**
*Cyfarwyddwr Buddsoddi*
☎ 02920 786 623
📱 07879 441 681

## Livingbridge

Mae Livingbridge yn deall twf. Rydym ni'n gwmni ecwiti preifat marchnad ganolig o fwy na 75 o bobl yn y Deyrnas Unedig ac Awstralia. Mae gennym ni £1.5 biliwn a reolir i'w fuddsoddi mewn cwmnïau sy'n tyfu'n gyflym. Mae ein tîm wedi bod yn cefnogi busnesau sy'n tyfu gyda'n gilydd ers ugain mlynedd.

**Meini Prawf:** Rydym ni'n buddsoddi mewn cwmnïau yn y sectorau defnyddwyr, gwasanaethau busnes, gofal iechyd ac addysg, a thechnoleg, cyfryngau a thelathrebu. Rydym ni'n buddsoddi o £2 filiwn hyd at £40 miliwn. Rydym ni wedi gwneud hyn dros gant o weithiau, gan droi llawer o gwmnïau'n enwau cyfarwydd gartref a thramor.

**Buddsoddiadau:**

Thomas J Fudge- gweithgynhyrchwr bisgedi premiwm

Pho- grŵp bwytai Fietnamaidd

Le Bistrot Pierre- grŵp bwytai Ffrengig

Empire World Trade- mewnforiwr a dosbarthwr ffrwythau yn y Deyrnas Unedig

Kafevend- darparwr gwasanaeth peiriannau gwerthu diodydd a byrbrydau

**Benoit Broch**
*Cyfarwyddwr*
☎ 02075 065 726
✉ Benoit.broch@livingbridge.com

**Matthew Jacobs**
*Rheolwr Buddsoddi*
☎ 02075 068 405
✉ Matthew.jacobs@livingbridge.com

## Lonsdale Capital Partners

Fe'i sefydlwyd yn 2009 a chaeodd gronfa £110 miliwn yn ddiweddar ym mis Ebrill 2016. Ymagwedd hyblyg iawn at fuddsoddi er mwyn dod o hyd i ateb sy'n gweddu i'r gwerthwyr a buddsoddwyr newydd gyda dull ymarferol a rhwydwaith cryf o uwch bersonél busnes i ychwanegu gwerth at gwmnïau portffolio.

**Meini Prawf:** Mae'n canolbwyntio ar ben isaf y farchnad ganolig, gan edrych ar fusnesau sydd ag EBITDA (enillion cyn llog, treth, dibrisiad ac amorteiddiad) o £1.5 i £5 miliwn. Mae'n ceisio dod o hyd i fusnesau arbenigol sy'n tyfu, a chanddynt gysyniad profedig, i'w helpu yn ystod cam nesaf twf.

**Buddsoddiadau:**

Nutirsure- Gwerthwyr bwydydd daionus o dan y brand Naturya mewn archfarchnadoedd a siopau iechyd ledled y Deyrnas Unedig, Iwerddon ac Ewrop

**James Knott**
*Cyfarwyddwr*
☎ 02075 141 809
📱 07766 798 360
✉ jknott@lonsdalepartners.com

## Lyceum Capital

Buddsoddwr twf sy'n buddsoddi mewn busnesau maint canolig yn y Deyrnas Unedig. Mae'n ffurfio partneriaeth â thimau rheoli entrepreneuraidd ac yn datgloi potensial ar gyfer twf trwy ddarparu cymorth cyfalaf, gweithredol a datblygu a chymorth gyda chaffaeliadau wedi'u targedu.

**Meini Prawf:** Yn nodweddiadol, mae'n buddsoddi rhwng £10 miliwn a £60 miliwn o ecwiti mewn busnesau cryf sy'n cynhyrchu £3-10 miliwn o EBITDA (enillion cyn llog, treth, dibrisiad ac amorteiddiad) a chanddynt dimau rheoli cryf lle y bydd cyllid a chymorth ychwanegol yn helpu i gyflawni ehangiad sylweddol.

**Buddsoddiadau:**

EAT- Busnes blaenllaw yn y farchnad bwyd a choffi "wrth fynd" yn y Deyrnas Unedig

**Simon Hitchcock**
*Partner*
☎ 02034 361 364
✉ SJHitchcock@lyceumcapital.co.uk

**Anne Sofie Staunsbaek**
*Rheolwr Buddsoddi*
☎ 02034 361 382
✉ AStaunsbaek@lyceumcapital.co.uk

## MML Capital

Mae MML Capital Partners yn ddarparwr cyfalaf twf i gwmnïau sefydledig sy'n tyfu sy'n gwneud mwy na £5 miliwn mewn EBITDA (enillion cyn llog, treth, dibrisiad ac amorteiddiad) yn nodweddiadol. Mae MML yn buddsoddi o'i swyddfeydd yn Llundain, Efrog Newydd a Pharis. Mae'n ceisio ffurfio partneriaeth â thimau rheoli, gan gefnogi eu strategaeth dwf trwy ddarparu cyfalaf ar gyfer twf organig a chaffaelgar, ar lefel leol a rhyngwladol.

**Meini Prawf:** £10 miliwn -£50 miliwn mewn segmentau marchnad busnes i fusnes yn bennaf.

**Buddsoddiadau:**
CH & Co Group, Tournus Equipment, Nactis ac mae ein buddsoddiadau blaenorol yn cynnwys WSH Group and Redmill Snacks.

**Ian Wallis**
*Partner Rheoli*
☎ 02070 242 200
✉ iwallis@mmlcapital.com

## Panoramic Growth Partners

Mae Panoramic Growth Equity yn fuddsoddwr ecwiti blaenllaw mewn cwmnïau entrepreneuraidd sy'n tyfu'n gyflym.

Mae Panoramic yn buddsoddi cronfa fuddsoddi £65 miliwn yn weithredol, a godwyd ym mis Mai 2016.

Mae Panoramic yn gweithio mewn partneriaeth â rheolwyr, gan ddarparu cymysgedd o gyfalaf, arbenigedd a chymorth i'w helpu i gyflawni eu huchelgais o ran twf a chynyddu gwerth cyfranddalwyr.

Mae gan y tîm dros ddeng mlynedd ar hugain o brofiad o fuddsoddi mewn busnesau bach a chanolig ac mae wedi cefnogi 40 o gwmnïau ers 2001.

**Meini Prawf:** Rydym ni'n buddsoddi rhwng £1 filiwn a £5 miliwn mewn cwmnïau sydd â throsiant o fwy nag £1 filiwn a'r potensial i dyfu'n gyflym.Mae cyfalaf Panoramic yn hyblyg ac rydym ni'n buddsoddi mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd gan gynnwys cyfalaf datblygu, cyfalaf amnewid a phrynu stoc/prynu cyfran gan reolwyr.Rydym ni'n fuddsoddwr cyffredinol, ond mae gennym ddiddordeb penodol mewn bwyd a diod.

**Buddsoddiadau:**
HECK! Foods- fe'i sefydlwyd gan Andrew a Debbie Keeble, sef ffermwyr o Swydd Efrog, yn 2012 ac mae'n gweithgynhyrchu selsig sy'n cael eu gwerthu ledled y Deyrnas Unedig yn Tesco, ASDA, Morrisons, Booths a Waitrose.

**Jane Reoch**
✉ jane@pgequity.com

**Stephen Campbell**
✉ stephen@pgequity.com

## Pembroke VCT

Mae Pembroke VCT plc, sy'n rhan o Oakley Capital Group, yn ymrwymedig i helpu timau rheoli i wireddu eu gweledigaeth, gan ddefnyddio eu rhwydwaith a'u profiad helaeth. O fusnesau cam cynnar i rai mwy aeddfed, mae Pembroke yn buddsoddi mewn sylfaenwyr a thimau rheoli y mae ganddynt hyder ynddynt, ar draws sectorau sydd â rhagolygon twf cyffrous.

**Meini Prawf:** Mae'r strategaeth fuddsoddi'n canolbwyntio ar fuddsoddiadau mewn busnesau arloesol ar gyfer defnyddwyr. Mae'r meysydd craidd a dargedwyd ar gyfer y gronfa yn cynnwys: Y Cyfryngau a Thechnoleg, Iechyd a Ffitrwydd, Lletygarwch, Dillad a Chyfwisgoedd.

**Buddsoddiadau:**
Plenish- cwmni sudd gwasgedig oer blaenllaw yn y Deyrnas Unedig
Dilly & Wolf- brand byrbrydau premiwm
Five Guys UK- cwmni a sefydlwyd yn yr Unol Daleithiau sy'n gweini ystod o fyrgyrs ffres a wnaed â llaw gan ddefnyddio cynhwysion lleol ynghyd â sglodion a dorrwyd yn ffres a thopins di-ben-draw.

**Tamara Warren**
☎ 02077 662 836
✉ tamara.warren@pembrokevct.com

## Piper Private Equity

Rydym ni'n fusnes buddsoddi sy'n arbenigo mewn brandiau defnyddwyr sydd â throsiant o £5 miliwn i £25 miliwn. Mae gennym ni 25 mlynedd o brofiad yn y diwydiant a rhwydwaith dibynadwy o gysylltiadau ac adnoddau. Ac mae ein cefndir mewn ymgynghoriaeth farchnata yn golygu bod gennym ni hefyd y deallusrwydd emosiynol i adnabod y brandiau sydd – gyda'r arweiniad priodol – yn debygol o lwyddo.

**Meini Prawf:** Sector – Brandiau defnyddwyr sy'n tyfu'n gyflym | Maint – gwerthiannau o £5 - £50 miliwn yn ogystal ag EBITDA (enillion cyn llog, treth, dibrisiad ac amorteiddiad) o £500,000 o leiaf | Proffil – Cwmnïau brand ac unigryw sy'n dangos twf da, a weithredir gan dimau rheoli dawnus | Maint buddsoddiad - £5 – £20 miliwn | Hyblygrwydd – Byddwn yn ystyried strwythurau prynu cyfran gan reolwyr (MBO), prynu stoc gan reolwyr (MBI), prynu cyfran a stoc gan reolwyr (BIMBO) a chyfalaf amnewid, gyda sefyllfaoedd ecwiti lleiafrifol neu fwyafrifol | Ffocws daearyddol – Cwmnïau a chanddynt bencadlys yn y Deyrnas Unedig, sydd â photensial sylweddol i dyfu yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol.

**Buddsoddiadau:**

Propercorn- brand popgorn sy'n tyfu'n gyflym yn y Deyrnas Unedig

Hickory's- tŷ mwg a bwyty barbeciw i deuluoedd ac iddo naws Americanaidd

Turtle Bay- cadwyn bwytai Caribïaidd sy'n tyfu'n gyflym

Loungers- cadwyn bwyty bar caffi

**Leon Hughes**
☎ 02077 273 842

## Tate & Lyle Ventures

Cronfa cyfalaf fenter £30 miliwn a gefnogir gan Tate & Lyle PLC, sef y grŵp cynhwysion bwyd byd-eang. Mae Tate & Lyle Ventures yn elwa o fynediad at rwydwaith byd-eang, gwybodaeth farchnad ac arbenigedd Tate & Lyle wrth ganfod a gwerthuso ei fuddsoddiadau a chynyddu eu gwerth i'r eithaf.

**Meini Prawf:** Gwyddorau a thechnoleg bwyd sy'n canolbwyntio ar gynhwysion ar gyfer iechyd a lles. Anelir at fuddsoddi £1-2 filiwn fel ymrwymiad cyntaf gyda chyfanswm buddsoddiad o hyd at £4.5 miliwn. Ni fydd yn buddsoddi mewn cynhyrchion ar gyfer defnyddwyr na chynhyrchion brand.

**Buddsoddiadau:**

Allyix- Datblygwr mân gemegau a chynhyrchion ar gyfer blas a melyster, yn y marchnadoedd bwyd ac amaeth

Fugeia- Pwyslais ar ffeibr bran gwenith ac iechyd treulio

ProLupin- Datblygu a gweithgynhyrchu amnewidion llaeth heb lactos sy'n tarddu o blanhigion

**Simon Barnes**
*Partner*
☎ 02075 505 985
✉ Simon.barnes@tateandlyleventures.com

**David Atkinson**
☎ 02075 505 984
✉ David.atkinson@tateandlyleventures.com

**Heather Roxborough**
*Pennaeth*
☎ 02075 505 986
✉ Heather.roxborough@tateandlyleventures.com

## Xénos

Y rhwydwaith angylion busnes yng Nghymru, sy'n gwasanaethu busnesau yng Nghymru sy'n chwilio am gyllid trwy eu paru â buddsoddwyr angel "gwerth net uchel". Mae'n darparu gwasanaeth cyflwyno a pharu ar gyfer cwmnïau sy'n ceisio buddsoddiad, ac yn darparu cyfleoedd 'twf uchel' cymwys i fuddsoddwyr sy'n addas ar gyfer buddsoddiad angel.

Mae'r buddsoddiad fel arfer ar ffurf ecwiti (rhan o'r busnes), er y bydd rhai angylion yn ystyried cyllid dyledion mewn rhai amgylchiadau.

Mae xénos yn gweithio gyda chwmnïau y buddsoddir ynddynt er mwyn ceisio gwella eu "parodrwydd ar gyfer buddsoddiad" trwy werthuso a beirniadu eu cynlluniau busnes o safbwynt buddsoddwyr a gweithio gyda'r cwmni i baratoi a rhoi'r cyflwyniad perffaith i gynulleidfa o fuddsoddwyr trwy ddigwyddiadau Fforwm Buddsoddi xénos.

Mae xénos yn helpu i ddatblygu syndicetiau buddsoddwyr ac yn rhoi arweiniad trwy'r broses fuddsoddi. Mae xénos hefyd yn gallu cyflwyno cwmnïau addas i reolwyr cronfa yn Llundain sydd â chronfeydd Cynllun Buddsoddi Cychwynnol mewn Mentrau (SEIS) / Cynllun Buddsoddi mewn Mentrau (EIS) a buddsoddwyr o dramor.

**Meini Prawf:** Tîm rheoli profiadol a chredadwy l Technoleg berchenogol neu dechnoleg â phatent a phwyntiau gwerthu unigryw cryf l Marchnad arbenigol gyda photensial sylweddol i dyfu l Cynllun busnes realistig a chyflawnadwy l Yr hyn rydych chi wedi'i gyflawni hyd yma l Sefyllfa gref yn y farchnad ac enillion eithriadol l Rôl weithredol yn aml yn defnyddio eu sgiliau a'u cysylltiadau l Ffordd allan eglur ar ôl 5 mlynedd (cyhoeddi cyfrannau, gwerthiant masnach neu brynu'n ôl) l Gostyngiad yn y dreth trwy Gynllun Buddsoddi Cychwynnol mewn Mentrau (SEIS) / Cynllun Buddsoddi mewn Mentrau (EIS) os yw ar gael

**Buddsoddiadau:**

Cynhyrchion maeth chwaraeon a pheiriannau gwerthu - £100,000 gan fuddsoddwyr xénos

Malws melys o safon- £7,000 gan fuddsoddwr xénos

Ffermio pysgod cregyn – oddeutu £450,000 gan syndicet o fuddsoddwyr xénos mewn dwy rownd ar wahân

Caffi arbenigol- £135,000 trwy xénos, buddsoddiad gan bartneriaid cyllido yn Llundain

Bar Coffi - £122,000 trwy xénos, buddsoddiad gan bartneriaid cyllido yn Llundain

Bariau protein sy'n deillio o bryfed – mewnfuddsoddi i Gymru o Ddwyrain Ewrop. £150,000 posibl yn cael ei drafod ar hyn o bryd gyda syndicet o fuddsoddwyr xénos.

**Ram Marjoria**
*Rheolwr Cyswllt*
☎ 07795 832 415
✉ ram.morjaria@xenos.co.uk

## YFM Equity Partners

Fe'i sefydlwyd ym 1982 ac mae'n rheoli £210 miliwn o gronfeydd ar hyn o bryd. Buddsoddwr cyffredinol sy'n gweithredu o 5 swyddfa ranbarthol (Llundain, Birmingham, Leeds, Sheffield a Manceinion) sy'n canolbwyntio ar fusnesau wedi'u lleoli yn y Deyrnas Unedig. Mae ganddo dros 35 o fuddsoddiadau ar hyn o bryd a'i nod yw gwneud 5-10 o fuddsoddiadau y flwyddyn.

**Meini Prawf:** Buddsoddiadau cyfalaf twf mewn busnesau sydd wedi'u profi'n fasnachol gyda refeniw o £1 filiwn o leiaf yn ystod y 12 mis blaenorol l Buddsoddiadau cyfalaf amnewid / prynu cyfran gan reolwyr ac ati ar gyfer busnes sy'n gwneud oddeutu £750,000 o elw y flwyddyn

**Buddsoddiadau:**

Bagel Nash- Cadwyn o 11 o siopau Bagel / Coffi ynghyd â phopty cyfanwerthu sy'n gwneud 12 miliwn a mwy o fagelau y flwyddyn

Waterfall Catering- Arlwywr Contract Arbenigol sy'n canolbwyntio ar y sectorau Addysg, Iechyd a Lles

Firezza- Cadwyn pizza wedi'i lleoli yn Llundain sydd â 10 safle


**Jamie Roberts**
*Cyfarwyddwr Buddsoddi*
☎ 02034 409 047
📱 07715 122 055
✉ Jamie.roberts@yfmep.com

# Ffynonellau Cyllid Eraill

**Dolenni gwefannau defnyddiol:**
Cymdeithas Cyllido Torfol y Deyrnas Unedig – www.ukcfa.org.uk

# Ffynonellau Cyllid Eraill

## Alternative Business Funding

Llwyfan cyllid arloesol sy'n darparu ffordd rwydd a rhad ac am ddim i fusnesau bach a chanolig ddod o hyd i fathau eraill o gyllid busnes. Mae'r cydweithrediad unigryw hwn yn dwyn ynghyd arweinwyr y farchnad sy'n darparu'r prif fathau o gyllid busnes arall ar gyfer busnesau bach a chanolig, ac felly ymdrinnir â phob math o gyllid o fenthyciadau tymor byr i dymor hir / dyled / ecwiti neu hunanfuddsoddi. Mae'r rhai sy'n darparu cyllid yn cynrychioli 85% o'r farchnad cyllid busnes arall mewn masnachu anfonebau, cyllid cymar-i-gymar, cyllid a arweinir gan bensiwn a chyllid seiliedig ar refeniw.

**www.alternativebusinessfunding.co.uk**

## Cyllido Torfol

Mae cyllido torfol yn codi arian trwy ofyn i nifer fawr o bobl roi swm bach o arian yr un. Yn draddodiadol, roedd cyllido busnes neu fenter fel arfer yn golygu gofyn i ychydig o bobl am symiau mawr o arian. Mae cyllido torfol yn defnyddio llwyfannau ar y we i siarad â miloedd – os nad miliynau – o gyllidwyr posibl. Mae busnesau sy'n ceisio arian yn sefydlu proffil ar wefan a gynhelir gan sefydliad cyllido torfol. Yna, gallant ddefnyddio eu rhwydweithiau a chyfryngau cymdeithasol i godi arian. Mae tri math gwahanol o gyllido torfol: rhoddion, dyled ac ecwiti.

*Cyllido torfol yn y sector bwyd a diod*

| Cwmni/brand | Llwyfan | Gwerth |
|---|---|---|
| Chapel Down – gwneuthurwr gwin a bragwr crefft | Seedrs | **£3.95m** |
| Oppo Icecream | Seedrs | **£300k** |
| Copeland Spirits Natural Ginfusions | Crowdfunder | **£30k** |
| Wibblers Brewery | Crowdfunder | **£10k** |
| Wildcraft Brewery | Crowdfunder | **£22k** |
| Crossed Anchors Brewery | Crowdfunder | **£38k** |
| Puddingstone Distillery | Crowdfunder | **£23k** |
| Camden Town Brewery | Crowdcube | **£2.7m** |
| Zero Carbon Food | Crowdcube | **£580k** |
| The Pressery | Crowdcube | **£144k** |
| Cauli Rice | Crowdcube | **£430k** |